***Cyngor Cymuned Llandyfriog***

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 2022.sef cyfarfod :zoom:o Dan gadairyddiaeth y Cynghorydd. Carol Davies.

Yn bresennol -Y Cynghorwyr , Derrick Richards, Carol Davies,Towyn Evans, Ann Jones, Sian Taylor, Alan Davies , Wyn Thomas a Ken Jones.

Ymddiheuriadau
Branwen Davies, Ian James a Meinir Thomas.

ICadarnhau Cofnodion cyfarfod yr 01-02-22
(c) Ann Jones, (e) Derrick Richards.

2) Heddlu,
Cafwyd ymddiheuriad gan Jeff Kedward.

3) Cynllunio,

Parcau Farm Penrhiwllan, Llandysul -A211158 -Mr Jamie Jukes .
Conversion of annex and office to a holiday let unit.
Iw drafod yn Mis Ebrill.

Allt Fawr , Parcau Farm Penrhiwllan -A211159. -Mr Jamie Jukes.
Conversion of a stone building to a holiday let unit.
Iw drafod yn Mis Ebrill.

Phase 3 Cae Rwgan Aberbanc -A220039 . Variation of conditions 2 and 3 of of A190890. Alterations to the design of dwellings and site layout , relocating the open space within the application site.

Dim gwrthwynebiad .
Y Cynghorydd Sir ,Mr Wyn Thomas yn datgan diddordeb yn y ceisiadau.

4) Gohebiaith.

Llythyr cais gan Glwb Rygbi Castell Newydd Emlyn ac sydd yn gwerthu coed iw plannu ar y ffin yn Dol Wiber. am £30.00 yr un.
Cytunwyd i brynnu 6 coeden yn enw y Cyngor.
(C) Ken Jones (E) Alan Davies. Pawb yn gytun.

Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr Rhys ap Tegwyn yn datgan ei ddiddordeb i ddod yn aelod ar gyfer y sedd wag ar y Cyngor Cymuned.
Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn y cynnig ganddo.

Cau ffordd yr C 1182 or 24 /26 o Chwefror oherwydd gwaith anghenrheidiol gan Ddwr Cymru.Hefyd U5277 ger Parkvilla Penrhiwllan or 3-7 fed o Chwefror -Dwr Cymru.

5) Materion Ariannol.

Mrs Anwen Evans - £345.22.
Mrs Gillian Davies - £230.30.
Mrs Anwen Evans - £161.82. ( Treuliau)
Mr Tomos Jones. - £750.00.
Swalec . (D D). - £12-13.
Vision ITC - £300.00..
Neuadd Llandyfriog - £20.00.
Cronfa Apel yr Wcrain. £200.00.

Cyfanswm = £1819- 47.

(c) Ken Jones.
(e) Ann Jones.

6) Materion eraill a drafodwyd .

Y Clerc i gysylltu gyda Clic Ceredigion ynglyn a problemau dwr ger Trebedw lle mae dwr glaw yn rhedeg heibior gwter a mynd i fewn i adeiladu.
Hefyd spwriel wedi ei adael ger Alltfach , mynediad Blaendyffryn sef potiau paint ac yn y blaen.

Mae y bin graean wedi cyrradd Pont Alltcafan.

Gwaith trwsio y bont yn Aberbanc ar waith.

Disgwyl dyddiad ir gwaith sydd iw wneud yn Adpar.

Coed a gwympodd yn Llandyfriog wedi ei symud bellach.

Y Cynghorydd Carol Davies yn gofyn am syniadau i ddod ac ymwybyddiaeth or Eisteddfod Genedlaethol yn Tregaron eleni erbyn cyfarfod Ebrill.

Bu gwraig ddierth yn casglu spwriel ar Rhiw Bryndioddef yn ddiweddar.

**Cyfarfod Nesaf ar y 5ed o Ebrill yn Neuadd yr Eglwys Llandyfriogam 7.30**